

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cynllun yn rhoi strategaeth ddatblygu a pholisïau a fydd yn cynnig arweiniad ar ddatblygu a defnyddio tir yn ardal y Cynllun hyd at 2026. Mae'r ymgynghoriad statudol ar y Cynllun Adnau yn cynnwys cyfle i gael gwared o safleoedd, awgrymu safleoedd gwahanol neu newidiadau i ffiniau'r safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Adnau. Bydd ymgynghoriad ar wahân ar y 'safleoedd amgen' hyn yn digwydd mor fuan a phosib ar ôl y cyfnod ymgynghori am y Cynllun Adnau. Bydd Arolygydd Cynllunio annibynnol yn y pen draw yn penderfynu a fyddent yn cael eu cynnwys yn y Cynllun terfynol ai peidio. Er mwyn i'r Arolygydd a benodir ystyried eich safle(oedd) amgen, rhaid i chi ddarparu'r holl wybodaeth a deunyddiau angenrheidiol (gan gynnwys Arfarniad Cynladwyedd a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol).

Gall safle amgen fod yn unrhyw ddarn o dir nad yw wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Adnau fel dynodiad neu o fewn ffin anheddle, yr ydych yn dymuno iddo gael ei ystyried fel safle amgen i'r safleoedd a ddynodwyd yn y Cynllun. Gall hyn gynnwys tir a aseswyd yn flaenorol gan y Cynghorau fel Safle Posib neu gallwch awgrymu defnydd gwahanol ar gyfer safle a ddynodwyd yn y Cynllun Adnau. Fe all hefyd gynnwys safle a ddynodwyd yn y Cynllun Adnau yr ydych yn dymuno ei weld yn cael ei dynnu allan neu ei newid.

Bydd y Cynghorau yn cyhoeddi'r ceisiadau am ddynodiadau safle ar 'Gofrestr Safleoedd Amgen' i roi cyfle i gyrff ymgynghori amgylcheddol, budd-ddeiliaid, a'r cyhoedd gynnig eu sylwadau ar y safle(oedd) a'r holl wybodaeth gysylltiedig (gan gynnwys yr Arfarniad Cynladwyedd a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol).

### Sut ydw i'n cyflwyno safle amgen?

- Rhaid ichi gyflwyno'ch safle amgen fel rhan o wrthwynebiad i'r Cynllun drwy ddefnyddio'r porth ymgynghoriad neu Ffurflen Ymateb i'r Cynllun Adnau (ar gael ar wefan bob Cyngor o 16 Chwefror 2015 ymlaen, neu drwy gysylltu â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – mae'r manylion isod).
- Rhaid ichi gyflwyno'r safle amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau (16 Chwefror hyd 5pm ar 31 Mawrth 2015).
- Rhaid ichi gyflwyno cynllun o'r safle yr ydych yn dymuno iddo gael ei ystyried gyda'ch cyflwyniad ar-lein, neu ei gynnwys gyda'ch Ffurflen Ymateb. Rhaid iddo fod yn fap o fath Arolwg Ordnans, gyda lleiafswm graddfa 1:2500, yn amlinellu'r tir i'w ystyried mewn COCH. Os ydi o'n safle newydd dylid dangos pwyntiau mynediad yn glir.
- Os yw'n safle newydd neu ddefnydd gwahanol i safle a ddynodwyd, rhaid i'ch cyflwyniad ddangos bod y safle yn cyd-fynd â strategaeth y Cynllun ac y byddai'r Cynllun yn gadarn petai'r safle yn cael ei gynnwys yn y Cynllun terfynol.
- Rhaid i chi brofi effeithiau cynladwyedd safleoedd newydd. Gelwir hyn yn Arfarniad Cynladwyedd, sydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (ceir rhagor o fanylion isod).
- Os ydych yn dymuno cael gwared o safle ddynodwyd yn y Cynllun Adnau neu newid ei ffiniau, rhaid i'ch cyflwyniad ddangos pam nad yw'r Cynllun yn gadarn gyda'r safle ynddo, gan gyfeirio at strategaeth y Cynllun, yr Arfarniad Cynladwyedd, yr Adroddiad Asesu Safleoedd (Papur Testun 1A) neu unrhyw Bapur Testun arall, os yn briodol.
- Mae'n rhaid i'ch cyflwyniad gynnwys gwybodaeth ddigonol i'r Cyngor gynnal Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd petai cynnwys y safle amgen yn y Cynllun yn debygol o arwain at newidiadau arwyddocaol i'r Cynllun. Yn ôl yr angen, bydd y Cyngor yn cynnal Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar safle Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur (ceir rhagor o fanylion isod).

## Beth yw Arfarniad Cynladwyedd?

Mae'r Arfarniad Cynladwyedd yn broses sy'n ystyried yr effeithiau tebygol economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y byddai unrhyw gynnig, gan gynnwys safleoedd datblygu amgen, yn ei gael ar amcanion cynladwyedd lleol. Mae Arfarniad Cynladwyedd y Cynghorau yn ymgorffori'r gofynion rheoleiddiol a geir yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Dylai'r Arfarniad Cynladwyedd gynnwys tystiolaeth ynghylch:

- Pa mor gydnaws yw'r safle gyda strategaeth y Cynllun;
- Unrhyw gyfyngiadau ffisegol, ecolegol, amgylcheddol a daearegol mawr ar ddatblygu'r safle, a'r mesurau lliniaru posibl i'w goresgyn neu eu lleihau;
- Pa mor gynaliadwy yw'r safle o ran yr isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael, ynghyd â'r defnydd o dir llwyd

Mae'n bosib y bydd y safle amgen eisoes wedi cael ei asesu fel rhan o asesiad blaenorol y Cyngor o safleoedd (gweler Adroddiad AC y Cynllun Adnau; a'r Adroddiad Asesiad Safle). Gallwch wrthwynebu canlyniad asesiad y Cyngor a gofyn am gael cynnwys y safle dan sylw neu gael gwared o'r safle.

Bydd ceisiadau am safleoedd amgen yn cael eu hystyried yn yr Archwiliad fel gwrthwynebiadau i gadernid y Cynllun. Mae'n hanfodol eich bod yn medru dangos pam nad ydych yn ystyried bod asesiad y Cyngor yn gadarn (h.y. yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn).

## Sut ydw i'n cynnal Arfarniad Cynladwyedd (AC)?

Mae'n bwysig fod eich asesiad o'r safle yn gyson â methodoleg asesu safle arfaethedig y Cyngor, sydd wedi'i nodi ym Mhapur Testun 1 (2013) a Phapur Testun 1A (2015), a'r fethodoleg Arfarniad Cynladwyedd, a nodir yn yr Adroddiad Adnau AC. Nodwch hefyd bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol wedi cyfrannu i gasgliadau'r Arfarniad Cynladwyedd.

Dylid cynnal yr holl asesiadau gan ddefnyddio'r Amcanion Cynladwyedd a sefydlwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC ac a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad Adnau AC. Rhestrir yr amcanion isod yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad AC llawn ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yng Ngwynedd a Môn, Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phyllheli ac yn Nerbynfa'r Gwasanaeth Cynllunio, Rovacabin, Llangefni. Mae'r adroddiad ac adroddiad yr Asesiad Effaith Ieithyddol ar gael ar wefan y ddau Gyngor: [www.gwynedd.gov.uk/cdll](http://www.gwynedd.gov.uk/cdll) neu [www.ynysmon.gov.uk/cdll](http://www.ynysmon.gov.uk/cdll) Mae'r adroddiadau yn rhoi manylion y waelodlin gynaliadwyedd, materion ac amcanion y gallai fod o gymorth wrth i chi lunio'r asesiad. Os nad oes Arfarniad Cynladwyedd wedi'i wneud ar safle newydd neu safle amgen mae'n anhebygol y bydd yr Arolygydd yn argymhell y dylid ei gynnwys yn y Cynllun. Petai'r dystiolaeth hanfodol ar goll, ni fyddai'r Arolygydd yn medru dod i'r casgliad fod y Cynllun yn parhau'n gadarn ar ôl ei newid.

## Pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd?

Os yw eich cynnig datblygu ar gyfer safle newydd neu safle amgen yn debygol o arwain at newid sylweddol i'r Cynllun, ac effaith sylweddol posibl ar safle Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur, bydd angen ichi sicrhau bod gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu er mwyn i'r Cyngor gynnal Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar gyflwr ffisegol, amgylcheddol a daearegol y safle, ynghyd â'i ddefnydd arfaethedig. Byddai llawer o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y wybodaeth amgylcheddol a ddarperir gyda'r Arfarniad Cynladwyedd o'ch safle. Nodir safleoedd cadwraeth natur Ewropeaidd ar Fapiau Cyfyngiadau'r Cynllun Adnau. Mae

rhagor o wybodaeth am safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur Ewropeaidd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler cyfeiriad y wefan isod).

### Sut fedra i gael rhagor o arweiniad ar baratoi'r arfarniadau angenrheidiol?

Mae'r gwefannau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth a chymorth ar sut i gynnal eich arfarniad:

Canllawiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar yr Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS):

<http://www.cgc.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-and-sea/environmental-assessment/strategic-environmental-assess.aspx?lang=cy-gb>

Gwybodaeth CNC ar safleoedd Ewropeaidd:

<http://naturalresourceswales.gov.uk/conservation-biodiversity-and-wildlife/european-protected-species/information-on-european-protected-species/?lang=cy>

Y Gyfarwyddeb AAS:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2004/1656/contents/made>

Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar AAS:

<https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance>

Llywodraeth Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009) (gweler Atodiad 6 – Arfarnu Cynlluniau Rheoliadau Cynefinoedd, tudalen 75):

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru Canllaw ymarferol ar gynllunio a'r Gymraeg

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/8855237/?skip=1&lang=cy>

Mae fersiwn Adnau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd ar gael i'w weld yn swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1<sup>af</sup> Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, llyfrgelloedd cyhoeddus Môn a Gwynedd, Derbynfaf'r Gwasanaeth Cynllunio, Rovacabin, Llangefni, a Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli, yn ogystal ag ar wefannau'r Cynghorau, gyda chopïau ar gael ar CD ar gais.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Adnau a'r broses hon ar gael ar wefan y Cyngor

[www.gwynedd.gov.uk/cdll](http://www.gwynedd.gov.uk/cdll) neu [www.ynysmon.gov.uk/cdll](http://www.ynysmon.gov.uk/cdll)

neu drwy gysylltu â:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Llawr 1<sup>af</sup> Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor,

Ffordd Gwynedd,

Bangor LL57 1DT

Ebost: [polisicynllunio@gwynedd.gov.uk](mailto:polisicynllunio@gwynedd.gov.uk)

Ffôn: 01766 771000 neu 01286 685003

Gwefan: [cdllwww.gwynedd.gov.uk/cdll](http://www.gwynedd.gov.uk/cdll) neu [www.ynysmon.gov.uk/cdll](http://www.ynysmon.gov.uk/cdll)

**Atodiad 1: Amcanion yr Arfarniad Cynladwyedd**

1. Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth  
(Pynciau AAS: *bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd*)
2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol  
(Pynciau AAS: *iechyd bodau dynol, y boblogaeth*)
3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu  
(Pynciau AAS: *ffactorau hinsawdd, aer*)
4. Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg  
(Pwnc AAS: *Treftadaeth ddiwylliannol*)
5. Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol  
(Pwnc AAS: *Treftadaeth ddiwylliannol*)
6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol  
(Pwnc AAS: *Poblogaeth*)
7. Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol  
(Pynciau AAS: *y boblogaeth, iechyd bodau dynol*)
8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun  
(Pwnc AAS: *y dirwedd*)
9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff  
(Pynciau AAS: *asedau deunyddiau, pridd*)
10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafndiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi  
(Pynciau AAS: *y boblogaeth, iechyd bodau dynol*)
11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd  
(Pynciau AAS: *dŵr, bioamrywiaeth*)

**Atodiad 2: Matrics Arfarniad Cynladwyedd Enghreifftiol**

Defnyddwyd y matrics isod i asesu'r safleoedd dynodedig o fewn y CDLI Adnau. Defnyddir y symbolau yn yr allwedd (gweler isod) yn y golofn 'Asesiad'. Mae'r symbolau yn y golofn hon yn nodi a yw'r safle yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddiwallu'r Amcan AC; a yw'n cyd-fynd â'r Amcan AC; a yw'r safle yn cael effaith niwtral ar yr Amcan AC; neu a yw'r safle yn rhwystr i gyflawni'r Amcan AC. Yn y golofn 'Crynodeb' dylid nodi sylwebaeth o'r asesiad.

**Allwedd**

|    |  |     |  |
|----|--|-----|--|
| ++ | Anogaeth frwd i'r datblygiad gan y byddai'n datrys problem bresennol o ran cynladwyedd | +/- | Materion cynladwyedd posib; posib lliniaru a / neu negodi  |
| +  | Dim rhwystrau cynladwyedd ac mae'r datblygiad yn dderbyniol                            | -   | Yn broblemus ac annhebygol oherwydd materion cynladwyedd sy'n hysbys; lliniaru neu negodi'n anodd ac / neu'n ddrud |
| 0  | Niwtral  | --  | Cyfyngiadau absoliwt o ran cynladwyedd   |
| ?  | Effaith anhysbys/ansicr  |     |  |

**Matrics Arfarniad Cynladwyedd**

Enw'r Safle:

Ardal y Safle:

| Amcan AC  | Asesiad    | Crynodeb   |
|---|------------|--|
| 1. Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth ( <i>Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd</i> )   | e.e.<br>++ | Bydd y safle yn cyfrannu tuag at yr Amcan AC hwn oherwydd..... |
| 2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol ( <i>Pynciau AAS: iechyd bodau dynol, y boblogaeth</i> )   |            |  |
| 3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu ( <i>Pynciau AAS: ffactorau hinsawdd, aer</i> )                                 |            |  |
| 4. Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg ( <i>Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol</i> )   |            |  |
| 5. Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol ( <i>Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol</i> )  |            |  |
| 6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol ( <i>Pwnc AAS: Poblogaeth</i> )  |            |  |
| 7. Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol ( <i>Pwnc AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol</i> )  |            |  |
| 8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun ( <i>Pwnc AAS: y dirwedd</i> )  |            |  |
| 9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff ( <i>Pynciau AAS: asedau deunyddiau, pridd</i> ) |            |  |
| 10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi ( <i>Pwnc AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol</i> )   |            |  |
| 11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd ( <i>Pwnc AAS: dŵr, bioamrywiaeth</i> )  |            |  |